Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Little Friends Nursery

**Ysgol Gynradd Ffynnon Taf**
**Heol Caerdydd**
**Ffynnon Taf**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF15 7PR**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Little Friends Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Friends Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Little Friends Childcare Ltd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Alison Jones |
| Person â gofal | Alison Jones |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 18 mis a 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Rhwng 08:00 ac 18:00, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ebrill 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 27/02/2024 |
| Mae ychydig o blant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhan-amser. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud â'r arolygiad hwn. Dylai'r lleoliad barhau â'i daith i wella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â'i ddefnydd effeithiol o'r awyr agored i hyrwyddo lles a dysgu o ansawdd uchel, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn bwrpasol. Maent yn hapus, yn hyderus ac yn gyffrous pan fyddant yn cyrraedd ac yn ymwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn mynegi eu teimladau'n glir, yn gwneud dewisiadau effeithiol am ble a gyda phwy y byddant yn chwarae. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion a disgwyliadau, sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o fod yn saff. Maent yn chwarae am gyfnodau amser estynedig, gan sgwrsio a chwerthin gyda'i gilydd, sy'n dangos eu hapusrwydd a'u bodlonrwydd. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes ag ymarferwyr ac yn ymateb yn frwd iddynt pan fyddant yn ymgysylltu â'u chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau rhannu newyddion sy'n bwysig iddynt gydag ymarferwyr. Er enghraifft, mae plant yn hapus i siarad am eu gwyliau diweddar gyda'u teulu. Maent yn cydweithio ac yn rhannu'n eithriadol o dda gyda'i gilydd ac yn dangos empathi a medrau creadigol rhagorol. Mae bron pob un ohonynt yn symud o gwmpas yn annibynnol ac yn dewis yr adnoddau y maent eisiau eu defnyddio. Er enghraifft, maent yn symud tywod o'r hambwrdd i ardal y dŵr i greu llaid.

Mae bron pob un o'r plant yn ffurfio ymlyniadau eithriadol o gadarnhaol â staff sy'n dangos gofal a hoffter diffuant am y plant. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les plant, ac

o ganlyniad, maent yn teimlo'n hyderus y bydd ymarferwyr yn ymateb i'w hanghenion yn brydlon. Maent yn chwilio'n naturiol am oedolion i gael cymorth os oes angen. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau cymdeithasol da iawn ac yn cydweithredu'n eithriadol o dda o ystyried eu hoedran. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r offerynnau cerdd, maent yn rhannu gyda phlant eraill ac yn cymryd eu tro â'r gwahanol adnoddau.

Mae bron pob un o'r plant yn llawn cymhelliant yn eu chwarae a'u dysgu, yn enwedig pan fyddant yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau chwarae yn yr ewyn eillio, gan ei dasgu i chwistrellu ym mhobman, gan ffugio mai eira ydyw, ac wedyn yn ychwanegu deinosoriaid a cherbydau i greu amrywiaeth o farciau a thraciau. Maent yn magu hyder wrth symud o gwmpas y lleoliad a dewis adnoddau. O ganlyniad, mae plant yn dysgu'n llwyddiannus iawn trwy chwarae. Wrth iddynt ddatblygu, maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau am gyfnod hirach yn eu chwarae. Maent yn mwynhau eu profiadau dysgu'n fawr ac yn siarad yn fywiog am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn dangos balchder wrth gwblhau tasgau, fel torri llysiau, ac yn ymateb yn eithriadol o dda i ganmoliaeth pan fyddant yn llwyddo.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol rhagorol ac mae ganddynt yr hyder i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn ymfalchïo mewn dangos eu medrau wrth iddynt arbrofi ag ystod eang o brofiadau dysgu. Er enghraifft, mae Helpwr Heddiw yn gofyn i'w ffrindiau beth hoffent i'w yfed ac yn mynd â'r jwg atynt. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hunan-barch plant. Mae bron pob un o'r plant yn helpu eu hunain i gwpanau a phlatiau seramig ac yn gweini eu hunain amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn unigol.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cryf iawn yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr a phlant eraill ac yn ymateb yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau storïau ac yn gwrando arnynt yn astud am gyfnodau cynaledig. Maent yn gwybod sut i drin a thrafod llyfr fel darllenydd ac yn deall bod ystyr i'r geiriau a'r lluniau. Mae ychydig o blant yn dewis yn annibynnol eu bod am edrych ar lyfrau gyda'i gilydd a siarad am y lluniau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu geirfa'n dda ac ychydig ohonynt yn defnyddio geiriau penodol i ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn siarad am y bwydydd a'r amgylchedd cywir ar gyfer crwban anwes y lleoliad. Mae plant sy'n amharod i siarad pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad yn datblygu eu hyder yn gyflym yn yr amgylchedd anogol.

O ganlyniad i'r cyfleoedd amrywiol a niferus i blant ddatblygu eu medrau creu marciau, mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod eang o offer â hyder a medrusrwydd ac yn gwneud cynnydd da iawn yn yr agwedd hon ar eu dysgu. Er

enghraifft, maent yn printio â choesynnau cennin Pedr i greu dyluniadau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ac yn gwneud nodiadau ar fyrddau sialc fel nodiadau atgoffa ar gyfer rhestr siopa wrth iddynt chwarae yn y gegin fwd.

Mae bron pob un o'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau syml sy'n cael eu rhoi yn Gymraeg ac yn ymuno'n frwdfrydig ag amrywiaeth eang o ganeuon a rhigymau. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol wrth iddynt chwarae, ac yn ystod amser byrbryd pan fyddant yn ymateb i gwestiynau am beth hoffent i'w fwyta a'i yfed.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da, o leiaf, yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth iddynt chwarae ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth lenwi cwpanau â thywod neu ddŵr, maent yn eu disgrifio fel llawn neu wag. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif i ddeg yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif y tu hwnt i hyn. Er enghraifft, maent yn cyfrif faint o sgwpiau o reis sydd angen iddynt eu hychwanegu at gynhwysydd i wneud siglwr cerddorol. Wrth adeiladu tyrau o wahanol feintiau, mae plant mwy abl yn cyfrif i ddau ddeg ac yn nodi pa dŵr sy'n fwy neu'n llai. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod siapiau dau ddimensiwn wrth chwarae ar y bwrdd rhyngweithiol. Maent yn adnabod patrymau ailadroddus ac yn siarad am y rhain yn eu gwaith creadigol. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig ag amrywiaeth o ganeuon a rhigymau rhif.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ystyried sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau â thasgau. Er enghraifft, maent yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau i dynnu eitemau o flociau rhew ac yn meddwl am sut i ddefnyddio pliciwr tatws wrth blicio tatws i wneud cawl. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu medrau creadigol cryf. Er enghraifft, maent yn creu darluniau dychmygus o ddreigiau Tsieineaidd a Chymreig ar ôl cymharu eu helfennau tebyg a'u gwahaniaethau.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn defnyddio ystod o offer awyr agored yn fedrus i wella'u medrau cydsymud a balansio, er enghraifft pan fyddant yn croesi trawst pren heb siglo. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio llwyau i sgwpio gwahanol ddeunyddiau i lenwi cynwysyddion neu ddefnyddio siswrn i dorri deunyddiau ar gyfer creu modelau.

Trwy ddefnyddio ystod eang o offer, mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio camerâu yn hyderus i dynnu ffotograffau o blant eraill wrth eu gwaith, ac yn defnyddio cerbydau rheoli o bell yn bwrpasol wrth iddynt chwarae.

## Gofal a datblygiad:  Rhagorol

Ceir systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd eithriadol o dda i blant ddatblygu trwy arferion dyddiol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion rhagorol i sicrhau bod plant yn aros yn iach, er enghraifft trwy ddarparu bwyd maethlon ac annog plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd.

Maent yn addysgu plant ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel yn ystod eu gweithgareddau trwy ystyried y risgiau posibl yn eu chwarae. Er enghraifft, pan fydd plant yn defnyddio'r offer balansio yn yr awyr agored, mae ymarferwyr yn archwilio gyda nhw beth yw'r risgiau y mae angen iddynt eu hystyried pan fydd yr offer yn wlyb ac yn llithrig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu plant ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon. Maent yn cynnal cofnodion cynhwysfawr ar gyfer diogelu yn ogystal ag adroddiadau am ddamweiniau a digwyddiadau. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn achosi pryder. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion unigol plant ac yn cefnogi eu preifatrwydd a'u hurddas bob amser.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol ac yn rheoli'r rhyngweithio â phlant yn eithriadol o dda. Maent yn uniaethu'n dda â nhw mewn modd tyner ac anogol iawn, gan eu canmol yn rheolaidd am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. O ganlyniad, mae plant yn hapus ac wedi ymlacio. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn llwyddiannus i ddatblygu cyfeillgarwch agos, rheoli eu teimladau ac ymdopi ag anghytuno trwy fodelu caredigrwydd a pharch. Maent yn atgoffa plant am arferion fel eu bod yn cael tawelwch meddwl ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae hyn yn magu hyder plant ac yn datblygu ymdeimlad o fod yn saff. Mae ymarferwyr yn modelu sut i rannu adnoddau ac yn canmol plant am ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae plant yn cydweithredu ac yn gwrando'n dda ar ymarferwyr a phlant eraill. Caiff agweddau tyner a phwyllog pob un o'r ymarferwyr effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad plant a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â phlant a phobl eraill.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth ragorol am sut i ddiwallu anghenion unigol plant. Maent yn arsylwi plant yn effeithiol ac yn hwyluso chwarae sy'n canolbwyntio'n dda ar gamau datblygiad y plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn i sicrhau bod pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da. Mae ymarferwyr yn mynd ati i annog chwilfrydedd ac yn galluogi plant i gael amrywiaeth dda o gyfleoedd i archwilio a dilyn eu diddordebau eu hunain.

Ceir prosesau effeithiol iawn i sicrhau bod plant yn datblygu dealltwriaeth gref o'r angen i weithredu'n gynaliadwy. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eu helpu i adnabod pwysigrwydd ailgylchu a gwaredu eu gwastraff bwyd yn briodol. Maent yn esbonio'n ofalus sut y gellir cynhyrchu trydan o wastraff bwyd. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau Cymraeg plant. Maent yn defnyddio ymadroddion Cymraeg trwy gydol y sesiwn wrth i blant chwarae a chanu caneuon yn Gymraeg i helpu plant i ddysgu rhifau a lliwiau.

Mae ymarferwyr yn trafod cyflawniadau unigol plant fel tîm ac yn cynnal asesiadau unigol penodol o'u cynnydd. Mae ganddynt weithdrefnau cadarn i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol ac yn cydweithio'n eithriadol o dda ag asiantaethau allanol i gefnogi a hyrwyddo deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu o ansawdd uchel y maent yn eu paru'n dda i gam datblygiad plant. Maent yn rhoi ystyriaeth eithriadol o dda i ddiddordebau plant wrth hwyluso gweithgareddau newydd, ond hefyd yn gwneud yn siŵr fod cyfleoedd buddiol i blant ddychwelyd i ardaloedd i ymarfer eu medrau mewn lleoliad cyfarwydd. Mae hyn yn cynorthwyo plant i ddatblygu medrau newydd ac atgyfnerthu agweddau y maent wedi'u dysgu yn llwyddiannus iawn.

Un o nodweddion rhagorol y ddarpariaeth yw ansawdd y rhyngweithio rhwng ymarferwyr a phlant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd rhagorol o'r amgylcheddau dysgu cyffrous ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored, gan alluogi plant i ddewis yn annibynnol ble maent yn dymuno dysgu. Ar yr un pryd, maent yn cefnogi dysgu'r plant trwy chwarae ochr yn ochr â nhw, ac yn defnyddio cwestiynau'n fedrus i ymestyn y dysgu. Trwy wneud hyn, maent yn gwybod pryd i sefyll yn ôl ac arsylwi ac yn gwybod pryd i ymyrryd i ddatblygu medrau plant. Maent yn modelu iaith ac ymddygiadau yn effeithiol iawn ac yn cyflwyno geirfa newydd yn ddi-dor wrth i blant chwarae. Mae hyn yn creu awyrgylch pwrpasol yn y lleoliad lle mae plant yn ymgolli yn eu chwarae a'u dysgu ac yn cael yr hyder i fentro a rhoi cynnig ar bethau newydd. Ceir llawer o gyfleoedd buddiol i blant glywed a defnyddio'r Gymraeg yn eu chwarae.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd hynod effeithiol o ymweliadau â'r fro ac yn croesawu ymwelwyr yn rheolaidd. Mae'r profiadau hyn yn ymestyn y cwricwlwm ac yn datblygu gwybodaeth plant am y byd ehangach. Er enghraifft, mae'r plant yn gyffrous pan mae cerddor lleol yn ymweld â'r ysgol eto ac yn siarad am yr offerynnau a'r caneuon yn frwdfrydig. Mae'r amgylchedd yn yr awyr agored yn darparu nifer o gyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod am natur. Yn ddiweddar, mae'r plant wedi cael eu cyfareddu gan nifer y pryfed genwair sydd wedi ymddangos yn yr ardal blannu, a thrwy ymateb sensitif ymarferwyr, wedi canfod ffeithiau diddorol amdanynt. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am fywydau plant eraill yn y lleoliad a dathlu gwahanol arferion a chredoau, yn ogystal â dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall plant ei wneud. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o ddatblygiad y plentyn ac yn gwybod yn eithriadol o dda beth yw anghenion a chryfderau unigol y plant. Trwy asesiadau parhaus, maent yn nodi'n effeithiol iawn ble mae angen cymorth neu her ychwanegol ar blant. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r plant yn datblygu ystod o fedrau yn raddol. Er enghraifft, maent yn sylweddoli nad oes gan rai plant yr hyder i roi cynnig ar wahanol offerynnau yn ystod sesiwn gerddoriaeth. Maent yn ymestyn hyn yn fwy anffurfiol trwy gydol y bore, gan ymgorffori dawns, symud a chanu ac annog y plant i arbrofi drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae llawer mwy o blant yn ymuno, yn rhoi cynnig ar wahanol offerynnau ac yn ymateb i'r rhythmau a'r patrymau yn y gerddoriaeth.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ar gyfer plant. Mae amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr a heriol iddynt ddatblygu ystod eang o fedrau, yn enwedig eu hannibyniaeth a'u medrau datrys problemau. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu yn eithriadol o dda i gymell plant i ymchwilio a bod yn ymholgar. Maent yn darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar ar gyfer y plant, sy'n groesawgar a chartrefol. Mae ymarferwyr yn dathlu creadigrwydd plant trwy arddangos eu gwaith a ffotograffau ohonynt yn chwarae. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad cryf o falchder, perchnogaeth a pherthyn i'r plant.

Mae gan arweinwyr gamau effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn saff ac yn cael ei gynnal yn dda, dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Maent yn sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi a bod neb yn gallu cael mynediad i'r lleoliad neu'r ardal awyr agored heb ganiatâd. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cwmpasu pob agwedd ar yr amgylchedd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn iach trwy ddilyn ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd fel bod plant a staff yn dod yn gyfarwydd â llwybrau a gweithdrefnau ar gyfer gadael mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr ac yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd.

Mae'r holl ddodrefn, offer ac adnoddau yn briodol ar gyfer oedran y plant, mae eu hansawdd yn dda ac yn cael eu cynnal a chadw yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar uchder priodol i alluogi plant i estyn eitemau yn annibynnol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau cynaliadwy ac y gellir eu hailgylchu i ymestyn chwarae'r plant. Er enghraifft, gall plant ddefnyddio blychau, cartonau a photeli gwag i ddatblygu eu medrau creadigrwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o le ar gyfer nifer y plant a bod toiledau addas a chyfleusterau priodol ar gyfer golchi a sychu dwylo. Mae'r cyfleusterau hyn yn darparu cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol.

Mae ymarferwyr wedi ystyried adborth plant a'u diddordebau i ddarparu ardal eithriadol o dda yn yr awyr agored sy'n rhoi profiadau rhagorol i blant ddysgu, chwarae ac ymlacio. Mae'r amgylchedd yn yr awyr agored yn estyniad o'r ardal dan do, ac mae wedi'i gynllunio'n eithriadol o dda. Mae'n galluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn ddychmygus ac yn greadigol. Mae plant yn datblygu hyder i wneud penderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn archwilio'r ystod eang o ardaloedd sydd ar gael yn hyderus ac yn addasu adnoddau yn unol â'u diddordebau; er enghraifft, maent yn troi twnnel yn guddfan ac yn chwarae cuddio gyda staff. Mae plant yn mwynhau archwilio gweithgareddau chwarae anniben gydag ewyn eillio a rhew. Maent yn cymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth yn y stiwdio awyr agored ac yn falch o ddangos eu rhandir lle maent yn tyfu eu llysiau eu hunain.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau'n darparu heriau priodol i ymestyn medrau plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain am sut hoffent ddefnyddio'r offer a'r risgiau y maent yn teimlo'n hyderus i'w cymryd. Er enghraifft, mae plant yn dewis sut maent eisiau defnyddio'r offer dringo ac

yn gofyn yn hyderus am gymorth gan staff pan fyddant yn teimlo bod angen cymorth arnynt.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn rhoi lles plant yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, y maent yn ei rhannu ag ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn deall y lefelau uchel o ofal ac addysg y mae'n dyheu amdanynt. Mae datganiad diben y lleoliad yn rhoi darlun cywir i rieni o'r hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos gofalgar a chyfeillgar lle mae plant yn ffynnu ac yn cyrraedd eu potensial. Mae ffocws ar blant yn arwain eu chwarae a'u dysgu mewn amgylchedd eithriadol o greadigol a hapus. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o ymarferwyr a phlant. Maent wedi arwain trwy esiampl ac yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd y lleoliad. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, eu bod yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn barhaus ac yn sicrhau bod pawb a phopeth yn bodloni eu safonau uchel. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i effaith tlodi ar les plant ac wedi cyflwyno systemau i liniaru yn erbyn hyn, er enghraifft rhannu adnoddau a chyflwyno banc gwisg ysgol.

Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo diwylliant o ddiogelu a diogelwch yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn gweithredu'n gyflym i wneud unrhyw welliannau a nodwyd. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd.

Mae prosesau'r lleoliad ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gynhwysfawr, yn fyfyriol ac yn werthusol. Maent wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol, yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau'r holl randdeiliaid, ac yn nodi meysydd i'w gwella yn glir. Mae arweinwyr yn annog ymarferwyr i gyfrannu at bob rhan o'r broses hon ac mae ganddynt lais cryf yn natblygiad y lleoliad. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn eithriadol o effeithiol. Pan fydd newidiadau'n digwydd, mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn nodi'n briodol beth yw manteision y rhain i blant, ac yn gwerthuso'u heffeithiolrwydd. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi creu amgylchedd cartrefol meddalach a mwy naturiol i gefnogi lles plant, ac wedi datblygu'r ardal adeiladu a darganfod yn yr ardd i alluogi mynediad gwell at adnoddau heb ymyrraeth oedolyn. Er mai mân addasiadau yn unig i'r ddarpariaeth sydd, ar y cyfan yn rhagorol, yw'r rhain, maent wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac o ganlyniad, mae plant yn gwneud defnydd mwy cynaledig o'r ardaloedd hyn ac wedi cynyddu hyder yn eu defnydd o adnoddau. Dros gyfnod, mae arweinwyr wedi cynllunio'n strategol i wella safonau'r Gymraeg yn y lleoliad ar gyfer ymarferwyr a phlant, fel ei gilydd. Er bod hwn yn faes y maent yn parhau i weithio tuag ato, mae wedi cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar safon y Gymraeg yn y lleoliad, a'r defnydd ohoni.

Un o gryfderau penodol y lleoliad yw ansawdd y gwaith tîm a'r cydweithio ymhlith ymarferwyr ac arweinwyr. Ceir ymrwymiad cryf gan bob un o'r ymarferwyr i ddysgu proffesiynol parhaus. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd, o ansawdd uchel, i ymarferwyr ddatblygu eu medrau ac ennill cymwysterau. Maent yn annog ymarferwyr i fyfyrio ar eu harfer trwy arfarnu a goruchwylio effeithiol. Mae hyn yn

sicrhau bod ymagwedd gyson gan bob un o'r staff a bod rhyngweithio proffesiynol o ansawdd uchel gyda phlant yn cael ei gynnal yn gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at safonau lles a dysgu uchel plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sydd o fudd i'r plant. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â rhieni ac yn eu hysbysu'n dda am ddiwrnod eu plentyn trwy ap cyfrifiadur. Mae arweinwyr yn bobl hawdd mynd atynt, yn gefnogol, ac yn awyddus i gydweithio â rhieni i sicrhau bod plant yn hapus ac yn ymgynefino'n dda. Maent yn trefnu cyfarfod adolygu gyda rhieni ychydig o wythnosau ar ôl i blentyn ddechrau yn y lleoliad, sy'n sicrhau bod gwybodaeth werthfawr yn cael ei rhannu a bod ymarferwyr yn ymwybodol o ffafriaethau unigol plant. Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i gynorthwyo pontio. Mae ymarferwyr yn mynd gyda'r plant i'r ysgolion y maent yn trosglwyddo iddynt, ac mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth am blant, gan gynnwys eu hoffterau a'u casbethau, fel y bo'n briodol. Mae'r lleoliad yn elwa ar gysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02 Mai 2024